

PRIFFYRDD, CYMRU

2018 RHIF 45

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR SY'N
GYFAGOS I 13 NEWTON STREET,
ABERTAWE) 2018**

Gwnaed 15 Ionwar 2018

Yn dod i rym 19 Ionwar 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir sy'n Gyfagos i 13 Newton Street, Abertawe) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adnewwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir sy'n Gyfagos i 13 Newton Street, Abertawe) 2018" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn;

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

HIGHWAYS, WALES

2018 NO. 45

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND
ADJACENT TO 13 NEWTON STREET,
SWANSEA) ORDER 2018**

Made 15 January 2018

Coming into Force 19 January 2018

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

Title, Interpretation and Commencement

1. (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Land Adjacent to 13 Newton Street, Swansea) Order 2018.

(2) In this Order:-

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Council of the City and the County of Swansea;

"the deposited plan" ("*y plan a adnewwyd*") means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Land Adjacent to 13 Newton Street, Swansea) Order 2018" which accompanies this Order;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been given; and

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

(1) 1990 p. 8. Diwygiwyd gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

(1) 1990 c. 8. Amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(2) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, a 5 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 21 Tachwedd 2017, o dan y cyfeirnod 2016/3704/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

3. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, and 5 the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with the planning permission granted under Part III of the 1990 Act by the Council on 21 November 2017 under reference number 2016/3704/FUL and described in Schedule 2 to this Order.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

3. The length of highway described in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;

(b) the development described in Schedule 2 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and

(c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

Statutory Undertakers and Providers

4. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

5. If the development described in Schedule 2 has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Ionwar 2018

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 15 January 2018

Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o 13 Newton Street, yng nghornel dde-orllewinol Maes Parcio'r YMCA, Abertawe, sy'n 19.2 o fetrau yn y man hiraf ac yn 8 metr yn y man lletaf ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Adeiladu llety pwrpasol i fyfyrwyr sy'n cynnwys rhwng 5-14 o lorïau ar gyfer llety preswyl gyda chyfleusterau ategol a rennir, storfeydd ar gyfer beiciau a biniau, ac uned fasnachol Manwerthu (Dosbarth A1) a/neu Fwyty (Dosbarth A3) ar y llawr gwaelod a gwaith cysylltiedig yn dilyn dymchwel adeilad unllawr presennol y bwyty.

SCHEDULES

SCHEDULE 1 (All measurements are approximate)

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

An irregular shaped length of highway located to the east of 13 Newton Street, in the south west corner of the YMCA Car Park, Swansea, with a maximum length of 19.2 metres and a maximum width of 8 metres and shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

The Development

Construction of a purpose built student accommodation building between 5-14 storeys for residential accommodation with ancillary communal facilities, cycle & bin stores, with ground floor commercial unit Retail (Class A1) and/or Restaurant (Class A3) and associated works following demolition of existing single storey restaurant building.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR SY'N GYFAGOS I 13 NEWTON STREET, ABERTAWE) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir sy'n Gyfagos i 13 Newton Street, Abertawe) 2018 ("y Gorchymyn"), yn peidio â chael effaith os yw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad yn dod i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Abertawe, y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1284985.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 19 Ionawr 2018, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND ADJACENT TO 13 NEWTON STREET, SWANSEA) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to enable the development described in Schedule 2 to be carried out. The Stopping Up of Highways (Land Adjacent to 13 Newton Street, Swansea) Order 2018 ("the Order"), will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at the office of Swansea Council, Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea, SA1 3SN during normal office hours or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1284985.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- it is not within the powers of the Act; or
- a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 19 January 2018, make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

An irregular shaped length of highway located to the east of 13 Newton Street, in the south west corner of the YMCA Car Park, Swansea, with a maximum length of 19.2 metres and a maximum width of 8 metres and shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

The Development

Construction of a purpose built student accommodation building between 5-14 storeys for residential accommodation with ancillary communal facilities, cycle & bin stores, with ground floor commercial unit Retail (Class A1) and/or Restaurant (Class A3) and associated works following demolition of existing single storey restaurant building, in accordance with the planning permission granted under Part III of the 1990 Act by the Council on 21 November 2017 under reference number 2016/3704/FUL.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o 13 Newton Street, yng nghornel dde-orllewinol Maes Parcio'r YMCA, Abertawe, sy'n 19.2 o fetrau yn y man hiraf ac yn 8 metr yn y man lletaf ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Adeiladu llety pwrpasol i fyfyrwyr sy'n cynnwys rhwng 5-14 o lorïau ar gyfer llety preswyl gyda chyfleusterau ategol a rennir, storffeydd ar gyfer beiciau a biniau, ac uned fasnachol Manwerthu (Dosbarth A1) a/neu Fwyty (Dosbarth A3) ar y llawr gwaelod a gwaith cysylltiedig yn dilyn dymchwel adeilad unllawr presennol y bwyty, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar 21 Tachwedd 2017 o dan Ran III o Ddeddf 1990, o dan y cyfeirnod 2016/3704/FUL.